

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 12 Hydref, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Y. Witchell (Swyddog Trwyddedu Cyngor Bro Morgannwg), CH T. Boley, S. McCarthy ac S. Powell (Heddlu De Cymru), y Cynghorwyr J.E. Charles, V.P. Driscoll, M.J.G. Morgan ac S.T. William, M. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Craffu Cyngor Bro Morgannwg), R. Price (Swyddog Cyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg), S. Panchal ac R. Singh.

Esboniodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Craffu y weithdrefn i'w defnyddio ar gyfer y gwrandawriad a dywedodd fod copi o'r weithdrefn ar gael o fewn yr agenda.

(a) Cyhoeddiad –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenwyd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Penodi Cadeirydd –

Dywedodd y Cynghorydd J.W. Etholwyd Thomas yn Gadeirydd trwy gydol y gwrandawriad.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Cais Ar Gyfer Cymeradwyo Trwydded Safle – Sea View Convenience Store, Unit 1 Esplanade Buildings, Friars Road, Y Barri, CF62 5TJ (AT) –

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawriad yr Is-bwyllgor a gwahoddodd bob person i gyflwyno ei hun.

Yna, gwahoddodd y Cadeirydd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r adroddiad, a ddywedodd fod hwn yn gais o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") am roi

Trwydded Safle yn Siop Gyfleustra Sea View, Uned 1 Adeiladau'r Esplanâd, Friars Road, Y Barri, CF62 5TJ.

Roedd papurau'r adroddiad yn cynnwys adroddiad pwyllgor gyda'r cais gan Mr Singh, papurau cefndir / sylwadau gan Heddlu De Cymru, a naw cynrychiolaeth arall gan Bobl Eraill. Wedi hynny, roedd Heddlu De Cymru wedi rhannu bwndeli ychwanegol o ddogfennau, megis datganiadau, ffotograffau a chopi o Orchymyn Adran 35 i'w hystyried. Roedd y rhain wedi'u dosbarthu i bob parti cyn y cyfarfod a gadarnhaodd pawb eu bod wedi gweld y dogfennau hyn ac wedi ystyried y rhain.

Y rheswm yr oedd gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu hwn oedd nad oedd y sylwadau uchod wedi'u tynnu'n ôl ac felly roedd angen gwrandawriad llawn.

Aeth y Swyddog Trwyddedu ymlaen i ddweud mai cais am ddyfarnu trwydded safle newydd oedd hwn ac er bod trwydded eisoes mewn grym roedd o fewn pwerau'r Ddeddf Trwyddedu i ystyried cymeradwyo'r cais newydd hwn.

Eglurodd y Swyddog Trwyddedu i roi cefndir fod yr Ymgeisydd wedi agor y safle yn gwerthu alcohol yn flaenorol ac wedi derbyn y cyngor perthnasol ynglŷn â'r math cywir o drwydded y dylai wneud cais amdani.

Ar ôl i'r Swyddog Trwyddedu gyflwyno'r adroddiad, gwahoddodd y Cadeirydd Mr. Panchal (cynrychiolydd yr Ymgeisydd) i gyflwyno'r achos.

Eglurodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod yr Ymgeisydd wedi bod yn fasnachwr ar Ynys y Barri am bum mlynedd heb unrhyw broblemau na thorri'r gyfraith a'i fod wedi cydweithredu â'r Heddlu a Swyddogion Trwyddedu dros y mater hwn ac am y newid defnydd o safle drwyddedig i yfed alcohol yno i safle drwyddedig i werthu alcohol i'w yfed oddi yno.

Er mwyn rheoli'r risgiau posibl a'r gwrthwynebiadau a godwyd drwy'r sylwadau, dywedodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd y byddai'r Ymgeisydd yn barod i leihau'r oriau y gwnaed cais amdanynt yn wreiddiol, gyda'r siop bellach yn cau am 10pm (yn hytrach 11pm) yn ystod yr haf ac am 8pm yn ystod y gaeaf. Byddai'r Ymgeisydd hefyd yn derbyn amod na fyddai unrhyw boteli gwydr, na photeli gwydr 'bychain' o alcohol yn cael eu gwerthu o'r safle na chaniau sengl. Roedd yr ymgeisydd, oherwydd yr amodau uchod, o'i brofiad o'r ardal ac fel dyn busnes lleol, yn gallu rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r drwydded werthu alcohol.

Gofynnodd y Cwnstabl McCarthy, cynrychiolydd o Heddlu De Cymru (Awdurdod Cyfrifol) a oedd yr Ymgeisydd wedi gwneud unrhyw ymchwil ychwanegol ar leoliadau â thrwydded werthu alcohol oddi ar y safle yn yr ardal leol ac a oedd ganddo ddealltwriaeth hefyd o'r problemau a wynebir yn yr ardal leol. Dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd wedi cael amser i ymchwilio i gael trwydded werthu alcohol oddi ar y safle yn yr ardal leol a dyma oedd ei fusnes trwydded werthu alcohol cyntaf. Yna gofynnodd y Cwnstabl McCarthy a oedd yr Ymgeisydd yn deall bod Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn grym yn yr ardal a'r hyn yr oedd yn ei olygu, ac atebodd yr Ymgeisydd nad oedd yn ymwybodol o'r Gorchymyn hwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn am eglurhad ynghylch a fyddai poteli gwydr o alcohol yn parhau i gael eu gwerthu yn y safle, ac atebodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd eu bod wedi cynghori'r Ymgeisydd, er mwyn osgoi problemau alcohol yn yr ardal leol, y dylid tynnu poteli gwydr o'r drwydded wrth symud ymlaen. Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad a oedd hyn yn cynnwys poteli gwydr gwirodydd hefyd, gyda'r Swyddog Cyfreithiol a Chwnstabl McCarthy hefyd yn cwestiynu a fyddai gwin a diodydd meddal mewn poteli gwydr hefyd yn cael eu heithrio. Cytunodd yr Ymgeisydd na fyddai unrhyw boteli gwydr o unrhyw fath yn cael eu gwerthu ar y safle.

Ar ôl i'r Swyddog Trwyddedu gyflwyno'r adroddiad, gwahoddodd y Cadeirydd gynrychiolydd yr Awdurdod Cyfrifol (y Cwnstabl Scott McCarthy) i gyflwyno ei achos.

Amlinellodd y Cwnstabl McCarthy (ar y cyd â swyddogion heddlu eraill a oedd yn bresennol) nifer o resymau pam na ddylid rhoi'r drwydded i'r safle dan sylw a chyfeiriodd at y dystiolaeth yr oeddent wedi'i rhannu â phob parti'n flaenorol. Dywedodd y Cwnstabl McCarthy mai dyma'r tro cyntaf iddo gyflwyno gwrthwynebiad llwyr i gais am safle drwydded werthu alcohol yn ystod ei ddwy flynedd fel Swyddog Trwyddedu Heddlu De Cymru.

Mynegwyd pryderon bod alcohol wedi'i werthu i'r cyhoedd heb y drwydded briodol yn y safle a'r posibilrwydd i gynyddu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yn ardal y safle pe bai'r cais hwn yn cael ei gymeradwyo (roedd Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) wedi'i adnewyddu'n lleol yn ddiweddar a oedd yn gorfodi cyfyngiadau ar alcohol yn yr ardal) a'r effaith ddilynol ar bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal, yn ogystal ag ar adnoddau ar gyfer plismona a rheoli gwastraff y Cyngor (h.y. clirio llawer iawn o ganiau a photeli gwydr o alcohol).

Teimlai'r Heddlu mai prif swyddogaeth y safle fyddai gwerthu alcohol yn hytrach na gwerthiannau cyfleustra cyffredinol ac nid oedd yr amodau a awgrymwyd gan yr Ymgeisydd er mwyn delio â'r pryderon a godwyd yn ddigonol i fynd i'r afael â'r rhain.

Fe wnaeth yr Heddlu hefyd fanylu ar restr o droseddau a gyflawnwyd yn yr ardal yn y gorffennol diweddar.

Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain ynghylch troseddau a gyflawnwyd yn y gorsafoedd rheilffordd ac ar drenau yn yr ardal yr oeddent yn gyfrifol amdani.

Dangosodd yr Heddlu glipiau fideo amrywiol o ymddygiad yn gysylltiedig ag alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Ynys y Barri. Er na ellid priodoli'r rhain yn uniongyrchol i'r cais gerbron y Pwyllgor, roeddent yn dangos lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai fod o ganlyniad i ormod o alcohol yn yr ardal yr oedd y safle wedi'i lleoli ynddi.

Dywedodd y Cwnstabl Powell, Swyddog Heddlu cymdogaeth yr ardal ei fod yn ofni na fyddai'r Heddlu'n gallu rheoli'r sefyllfa pe bai llawer iawn o alcohol ar gael yn rhwydd ar y promenâd a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y gymuned a busnesau lleol.

Felly, gofynnodd yr Heddlu i'r cais hwn gael ei wrthod yn llwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn a oedd Heddlu De Cymru wedi rhoi unrhyw ddirwyon o ganlyniad i'r alcohol a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddangoswyd yn y dystiolaeth a'r recordiadau a ddarparwyd. Atebodd y Cwnstabl McCarthy nad oedd ganddo'r wybodaeth honno wrth law a'i fod dim ond yn ymwybodol o'r arestiadau a wnaed ynghylch ymddygiad meddw sy'n achosi anhrefn ac ati a welwyd yn y lluniau a gyflwynwyd.

Gofynnodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd a oedd yr Heddlu wedi cysylltu â busnesau lleol er mwyn gweld sut y gallent helpu (gan gynnwys busnes bwyd yr Ymgeisydd) megis unrhyw sefydliadau 'Gwylwyr Tafarnau' a chyfeiriodd at ddau fusnes arall yr oedd yn credu eu bod yn lleol a hefyd yn gwerthu alcohol. Dywedodd y Cwnstabl McCarthy nad oedd unrhyw fariau na thafarndai yn y cyffiniau. Roedd y ddwy siop y cyfeiriwyd atynt o ran gwerthu alcohol tua 10-11 munud o gerdded i fyny'r allt ac felly i ffwrdd o'r ardal ac nid oedd dystiolaeth eu bod yn cyfrannu at y gweithgaredd neu'r anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cydnabu'r Heddlu nad oedd safle drwydded werthu alcohol arfaethedig yr Ymgeisydd wedi bod yn gwerthu'r alcohol a welwyd yn cael ei atafael yn y lluniau fideo a rannwyd.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach a / neu Awdurdodau Cyfrifol yn bresennol, gwahoddodd y Cadeirydd y Person Arall i gyflwyno ei sylwadau, sef yr aelod ward lleol, y Cynghorydd S.T. Wiliam, a fyddai'n siarad ar ran y Bobl Eraill a oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Wiliam fod y cais yn wrthgymdeithasol ac yn beryglus, ac felly'n torri'r Amcanion Trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu. Dywedodd y byddai'n dadwneud 20 mlynedd o waith i wella'r Ynys fel cyrchfan sy'n ystyriol o deuluoedd. Gallai cael trwydded werthu alcohol yn yr ardal leol ond waethygu'r problemau presennol a wynebir, tanseilio'r GDMC, a byddai'n rhoi mwy o bwysau ar adnoddau'r Heddlu a rhai'r Cyngor (megis drwy gynyddu sbwriel).

Cydnabu'r Cynghorydd Wiliam fod dwy siop arall yn yr ardal leol yn gwerthu alcohol, ond gellid gwahaniaethu rhwng y rhain a'r cais hwn gan nad oedd y gwerthiant yn uniongyrchol i'r promenâd lleol nac yn agos at y traeth lleol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i bob parti grynhoi neu ychwanegu at eu sylwadau. Gan nad oedd trafodaethau pellach, aeth yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais yn breifat.

Ar ôl dychwelyd, cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cais am Ganiatáu Trwydded Safle yn Siop Gyfleustra Sea View, Uned 1 Adeiladau'r Esplanâd, Friars Road, Y Barri, a bod y Cais wedi gofyn am y gweithgaredd trwyddedadwy canlynol: gwerthu alcohol i'r cyhoedd fel safle â thrwydded werthu alcohol oddi ar y safle Dydd Llun i ddydd Sul 08:00 – 23:00.

Wrth gyflawni penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu, rhoddodd y Cadeirydd grynodedb o'r sylwadau llafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr holl bartïon a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y gwrandawriad fel y nodir yn y cofnodion uchod.

Dywedodd y Cadeirydd, ar ôl ystyried y Cais, y

sylwadau gan Adran Drwyddedu'r Awdurdod Lleol, cynrychiolydd yr Ymgeisydd, Heddlu De Cymru a Phobl Eraill, ac o ystyried Canllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, yn ogystal ag ystyried Deddf Trwyddedu 2003 (Fel y'i Diwygiwyd) a'r Cyfarwyddebau Trwyddedu, yr Is-bwyllgor Trwyddedu

PENDERFYNWYD – Gwrthod y cais.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth ddod i'r penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ystyried y cais ynghyd â phawb sydd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref o dan a.182 ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Mae datganiad polisi Trwyddedu'r Cyngor yn atgyfnerthu gofyniad cyfreithiol y Ddeddf Trwyddedu mai dim ond os ydynt yn hyrwyddo'r amcanion Trwyddedu y dylid cymeradwyo ceisiadau, sef:

Atal Trosedd ac Anrhefn
Diogelwch y Cyhoedd
Atal niwsans cyhoeddus a
Gwarchod plant rhag niwed.

Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu hefyd yn nodi:

"Mae'r Cyngor yn dymuno annog mwy o gyfranogiad gan y gymuned mewn penderfyniadau Trwyddedu a rhoi cyfle i drigolion lleol ddweud eu dweud am benderfyniadau trwyddedu a allai effeithio arnynt."

O ran Siopau Trwyddedig, mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn nodi:

"Mae rhai siopau ac archfarchnadoedd sy'n gwerthu Alcohol wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, anhrefn ac aflonyddwch. Gall hyn gael ei achosi gan yfwyr stryd ac yfwyr dan oed yn ceisio cael, neu wedi cael alcohol o safle o'r fath. Oherwydd y pryderon hyn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried o ddifrif unrhyw sylwadau a wneir gan Awdurdodau Cyfrifol neu bobl eraill mewn perthynas ag effeithiau rhoi trwyddedau o'r fath yng nghyffiniau'r safle."

Rhodddwyd y cyfrifoldeb dros weinyddu trwyddedu i Awdurdodau Lleol yn hytrach na chyrrff chyfiawnder neu ryw gorff arall, oherwydd, yn ôl y Papur Gwyn (Cm 4696, 2000, para 123) roedd tri rheswm cymhellol dros wneud hynny

"Atebolrwydd: credwn yn gryf y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn atebol i drigolion lleol y mae'r penderfyniadau a wneir yn effeithio'n sylfaenol ar eu bywydau

Hygyrchedd: gall llawer o drigolion lleol gael eu llesteirio gan brosesau llys, a byddent yn fwy parod i geisio dylanwadu ar benderfyniadau os ydynt yn nwylo cynghorwyr lleol

Trosedd ac Anhrefn: Erbyn hyn, mae gan awdurdodau lleol rôl statudol arweiniol o ran atal trosedd ac anhrefn lleol, ac mae'r cysylltiad rhwng alcohol a throseddu yn ddadl berswadiol dros roi rôl arweiniol debyg iddynt gyda thrwyddedu."

Mae canllawiau a.182 y Swyddfa Gartref ym mharagraff 9.3 yn nodi:

"Pan fo sylwadau'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu yn cael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol ynghylch amserlen weithredu arfaethedig a'u bod yn berthnasol, bydd disgresiwn yr awdurdod trwyddedu yn cael ei roi ar waith. Bydd hefyd ar waith os bydd person arall yn cyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu, nad ydynt yn wamal neu'n flinderus."

Aiff y canllawiau ymlaen i ddweud ym mharagraff 9.12

".....dylai'r heddlu, fel arfer felly, fod yn brif ffynhonnell cyngor yr awdurdod trwyddedu ar faterion sy'n ymwneud â hyrwyddo'r amcan trwyddedu trosedd ac anhrefn....."

Mae paragraff 9.40 yn nodi:

"Fel arall, gall yr awdurdod trwyddedu wrthod y cais ar y sail bod hyn yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu...."

Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu hefyd yn ymwybodol o rwymedigaethau'r Cyngor o dan a.17 (1) y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n nodi:

"Heb ragfarnu unrhyw rwymedigaeth arall a osodir arni, bydd dyletswydd ar bob awdurdod y mae'r adran hon yn berthnasol iddo i arfer ei amrywiol swyddogaethau gan roi sylw dyladwy i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny, a'r angen i wneud popeth sy'n rhesymol i atal,

- (a) trosedd ac anhrefn yn ei ardal (gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd lleol),
- (b) camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill yn ei ardal, ac
- (c) aildroseddu yn ei ardal."

Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi darllen a chlywed sylwadau Heddlu De Cymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain heddiw a gan bersonau eraill sy'n byw yn y cyffiniau yn bennaf sydd â phryderon difrifol na allai cymeradwyo'r cais hwn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn enwedig yr amcan trosedd ac anhrefn.

Clywodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu fanylion y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus a adnewyddwyd yn ddiweddar yn y cyffiniau, cyn mabwysiadu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus bu'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddangos

tystiolaeth o'r ffaith bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig ag alcohol yn fater difrifol yn y cyffiniau.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu a allai unrhyw amodau helpu i leddfu'r pryderon hyn ond teimlai na fyddai'n bosibl amodi'r cais hwn i'w gwneud yn dderbyniol.

Dyma'r rhesymau pam y penderfynodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wrthod y cais yn unfrydol.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Ymgeisydd fod ganddo hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Rhaid i'r apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig ac o fewn 21 diwrnod i Lys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Os bydd yr ymgeisydd yn ansicr ynghylch ei hawliau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau, dylai fynd am gyngor cyfreithiol annibynnol.